

Cylchlythyr | Circular

Ymgynghoriad ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol CCAUC 2020-24

Dyddiad: 09 Ionawr 2020
Cyfeirnod: W20/02HE
At: Benaethiaid Sefydliadau Rheoledig a
phartïon eraill â buddiant
Ymateb erbyn: 04 Mawrth 2020
Manylion Cyswllt: Enw: Ryan Stokes
Ffôn: 029 2085 9736
E-bost: ryan.stokes@hefcw.ac.uk

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno drafft o Gynllun Cydraddoldeb
Strategol 2020-2024 CCAUC ac yn gofyn am ymateb i'r Cynllun hwnnw.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch
mewn fformat hygyrch arall,
anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English

Cyflwyniad

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno drafft o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 CCAUC ac yn gofyn am ymateb i'r Cynllun hwnnw.

Y Cefndir

2. Cyflwynwyd y [Ddeddf Cydraddoldeb](#) ym mis Ebrill 2010 a [dyletswyddau penodol i'r sector cyhoeddus \(Cymru\)](#) yn gysylltiedig â chydaddoldeb ym mis Ebrill 2011.
3. Fel tystiolaeth i ddangos sut y bydd awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol yn gysylltiedig â chydaddoldeb, roedd hi'n ofynnol i CCAUC gyhoeddi [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) pedair blynedd erbyn mis Ebrill 2012.
4. Mae'n ofynnol i CCAUC ddiwygio a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Cynllun) newydd ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 - Mawrth 2024. Mae swyddogion CCAUC yn datblygu'r Cynllun ar hyn o bryd, gan ystyried trafodaethau â phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyrff Cyhoeddus eraill yng Nghymru¹, y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) a chynrychiolwyr y prifysgolion.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol CCAUC

5. Cyflwynir drafft o Gynllun 2020-24 CCAUC yn **Atodiad A**
6. Ar sail dadansoddiad beirniadol o'n Cynllun blaenorol, ac yn unol ag ymagwedd Sefydliadau Addysg Uwch a chyrrff cyllido eraill y DU, bwriad CCAUC yw mabwysiadu ymagwedd fwy thematig yn y cyfnod cynllunio hwn.
7. Yng Nghynllun blaenorol CCAUC, nodwyd amcanion i'w cyflawni bob blwyddyn ar gyfer nodwedd warchoddedig neilltuol. Efallai nad oedd hyn, o bosib, yn cydnabod natur gymhleth y materion dan sylw, a bod angen camau hirdymor a pharhaus er mwyn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion.
8. Yn y cyfnod cynllunio hwn, mae CCAUC wedi mynd ati'n fwriadol i greu cynllun strategol a lefel uchel, wedi'i danategu gan gynllun cyflawni blynyddol. Drwy'r ymagwedd hon, ceir cydnabyddiaeth fwy effeithiol y gallai pobl, er enghraifft, uniaethu â mwy nag un nodwedd warchoddedig, ac y gallai amcanion a nodir gennym gael effaith gadarnhaol ar bobl ar draws ystod o nodweddion gwarchoddedig. Mae'r ymagwedd hon hefyd yn galluogi CCAUC i ymateb yn ystwyth i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

¹ Aelodaeth y Grŵp Cyrff Cyhoeddus Cenedlaethol: Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, CCAUC, Comisiynydd y Gymraeg, Gyrfa Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru, Chwaraeon Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

9. Yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad, bydd CCAUC yn datblygu cynllun cyflawni blynyddol, a fydd yn nodi'n fanwl y camau a'r cerrig milltir y bwriedir iddynt fod yn sail i'n Cynllun.

Ymateb i'r Ymgynghoriad

10. Rydym yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae gennym ddi-ddordeb arbennig mewn safbwyntiau'n gysylltiedig â'r cwestiynau isod, ond byddwn yn croesawu pob ymateb. Anfonwch eich ymateb at Ryan Stokes (ryan.stokes@hefcw.ac.uk neu equality@hefcw.ac.uk) **erbyn 04 Mawrth 2020**.
11. Byddem yn gwerthfawrogi eich safbwyntiau ynghylch y canlynol:
- Beth ddylai Cynllun Cydraddoldeb Strategol CCAUC geisio ei gyflawni yn y tymor byr, canolig a hir, o ran gwaith CCAUC gyda darparwyr addysg uwch fel y bo'n berthnasol i'w cyflogeion a'u myfyrwyr.
 - A yw'r ymagwedd a gynigir yn y cynllun yn briodol?
 - A yw amcanion lefel uchel CCAUC yn ymddangos yn berthnasol a chymesur?
 - Beth arall y gellid ei gynnwys ymhlith amcanion lefel uchel CCAUC er mwyn gwella cydraddoldeb ymysg staff sy'n gweithio mewn addysg uwch a myfyrwyr?
 - Beth arall y gellid ei gynnwys ymhlith amcanion lefel uchel er mwyn gwella cydraddoldeb CCAUC fel cyflogwr.
 - Pa gamau y gallai cynllun cyflawni CCAUC eu cynnwys er mwyn cyfrannu at gyflawni ei themâu strategol a'u amcanion lefel uchel.
 - Pa gamau y gallai CCAUC eu cymryd ar y cyd â darparwyr addysg uwch a phartion eraill â buddiant er mwyn gwneud cynnydd tuag at ei amcanion lefel uchel?
 - Sut y bydd CCAUC yn gwybod a gyflawnwyd ei amcanion lefel uchel yn llwyddiannus?
 - A oes gennych unrhyw sylwadau eraill? Er enghraifft, a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl neu oblygiadau negyddol yn gysylltiedig â drafft Cynllun Cydraddoldeb Strategol CCAUC?
 - A allwch nodi unrhyw effeithiau eraill sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg ac/neu gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 y dylem eu hystyried wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ymhellach?

Gwybodaeth bellach / ymatebion pellach

12. Os hoffech drafod yr ymgynghoriad hwn ymhellach, cysylltwch â Ryan Stokes (ffôn: 029 2085 9736; e-bost: ryan.stokes@hefcw.ac.uk neu equality@hefcw.ac.uk).